LG 355. S. 199

# MARWNAD,

ER

## COFFADWRIAETH

AM Y PARCHEDIG

## ZECHARIAS THOMAS,

*GWEINIDOG YR EFENGYL*

YN

## ABERDUAR

A'R

## *Canghenau Perthynol.*

Dywedir iddo bregethu'r Efengyl dros 60 mlynedd, a bu yn gweinyddu yr Ordinhadau saith neu wyth a deugain o flynyddau.—Yr hwn a ymadawodd 16 o Ionawr, yn y flwyddyn 1816, yn y 89 flwyddyn o'i oedran.

GAN

## DAVID SAUNDERS.

## D. DAVIES,

Ei Gyd-weinidog, a bregethodd yn ei Angladd oddi ar Heb. xiii. 7.

"Meddyliwch am eich blaenoriaid, &c."

BIRD, ARGRAPHYDD, CAERDYDD.

LW 4576   X003316467

# MARWNAD, &c.

1 CE'S newydd wnaeth i'm wylo (chwi ellwch goelio'i gyd)
Mae'n digwydd mai 'Nhredegar yr o'wn i ar hyn o bryd,
Sef pentref yn sir Fynwy (gwyr llawer am y lle)
Cwrdd Misol o'em ni'n gadw, ac amryw 'nghyd âg e'.
2 Fod ZECHARIAS TOMOS, fu'n dangos i mi, do,
'Nawr wedi myned ymaith, er trefnu llawer tro:
Fy nhad, fy nhad, a cherbyd i Israel hefyd oedd,
Ac hefyd ei farchogion yn gyson iawn ar g'oedd.
3 Ei blant rhinweddol mwynion gollasant dirion dad,
A cholled sy'n gyffredin hyd 'n od ar led y wlad;
Ond, Och! yr Eglwys wiwglod a ga'dd y dyrnod dwys,
O'i weled ef yn gorwedd mor griedd dan ei grwys.
4 Ei rodiad oedd anrhydedd, mawr rhyfedd a mawrhad,
I'r hyn oedd yn broffesu o grefydd Duw ei Dad;
Ei gamrau'n union gym'rodd, dilynodd â dwy law,
A hyn gym'rodd arno'n ddilys, nes myn'd yn drefnus draw.
5 O boed i'n nerthu ninnau 'r un Duw a'i nerthodd ef,
Nes myned yn fuddugol o'r byd 'r y'm 'nawr i'r nef;
Ac yno fyth i ganu 'n un yn y teulu teg,
A diddan, mewn dedwyddwch, hyfrydwch yn ddifreg.
6 O ZECHARIAS TOMOS, bu'n aros yma'n hir,
Dros lawer o flynyddoedd pregethodd ef y gwir;
O'r diwedd ymadawodd, mewn nefoedd mae e' 'nawr,
O ran ei enaid (coeliwch) a'i gorph yn llwch y llawr.
7 Bu yn y weinidogaeth yn helaeth iawn o hyd,
Dros drigain o flynyddoedd, trwy amryw barthau'r byd;
Llafuriodd â llawn fwriad, o gariad yn y gwaith,
Nes iddo'n hollol felly ddibennu'r dydd a'r daith.
8 Bu i mi'n dad, mi d'wedaf, o'r mwynaf ar y ma's,
Ef un o'r rhai oedd gryfion yn athrawiaethau gras;
A mynych mewn amynedd, yn rhyfedd iawn y rhodd
I mi gynghorion euraidd, dirgelaidd ac ar go'dd.
9 Diysgog iawn a helaeth yn yr athrawiaeth rad,
Ac i lefarwyr ifaingc bob pryd yn dirion dad;
Arweiniwr, cyfarwyddwr, hyfforddwr i'w goffhau,
O'i golli, gwna'i gyfeillion lais cwynion, dan lesghau.
10 Cyhoeddai'r iechydwriaeth yn helaeth iawn o hyd,
I bawb a gredai'n Iesu, 'r hwn fydd yn barnu'r byd;
Ond am yr anghredinwyr, a'r gwawdwyr drwg eu gwedd,
Cyhoeddai'n hŷ na welent wir fywyd hir a hedd.

11 Sefydlog a dysgog iawn oedd yr enwog wr,
Duw oedd ei Gyfarwyddwr, Duw oedd ei Dŷ a'i Dwr;
Duw oedd yn bob peth iddo ac ynddo, dyna'r gwir,
Ac hefyd bob peth drosto i'w ddwyn yn deg i dir.
12 Cwrdd Cwarter a Chymanfa, lle byddai wycha'i wedd,
Un didwyll yn dywedyd am D'w'sog hyfryd hedd;
Nis ceir ef yn y rhei'ny, mae hynny felly'n fawr
Alarnad, i flinderog a llwythog ar y llawr.
13 Mae udsain ei bregethau'n fy nghlustiau'n awr ynghlo,
Ni pheidiaf, hyd fy marw, mo'u cadw hwy mewn co';
Mawrygu Person Iesu, pregethu felly fu,
Rhoi alwad i ni ddwad i drefniad Ceidwad cu.
14 Athrawiaeth gras oedd hynod o barod yn ei ben,
Hi wreiddiodd yn ei galon i ni, fe'i ca'dd o nen;
Rhoi laeth i'r gwan aflawen o fronau'r drefen fry,
Bwyd cryf i'r rhai cadarnaf a dewraf yn ei dŷ.
15 Yn Eglwys Aberduar yn awr mae trydar trwm,
Ar ol ei fyned adref, fe fydd y lle'n fwy llwm;
Ond hyn sydd i'w ddywedyd, mai'r Duw fu gyd âg e',
Sy'n abl codi etto rai lwyddo yn ei le.
16 Cyn iddo fe gyfodi, ei Dduw oedd gyd â'r gwaith,
Ar ol ei fyned ymaith, (clywch chwi) ni pheidia 'chwaith,
Mae gantho fe gynhauaf, o'r mwyaf ar y ma's,
*Rhaid* iddo fe gael gweithwyr i daenu 'Fengyl gras.
17 Gwnaiff Arglwydd y cynhauaf roi gweithwyr at ei waith,
Daw gweinidogion ddigon, er bod ei faes yn faith;
Fe lenwir etto'r bylchau, rhaid cau adwyau Duw,
Ni feth ef eisiau gweithwyr, tra fyddo dyn yn fyw.
18 Yr Arglwydd Dduw a'i rhoddodd, ac a'i cymmerodd ef,
A bendigedig ydyw ffyrdd union ffyrdd y nef;
Da iawn y gwnaeth ef bob peth, fe dd'wedir hyn ryw ddydd,
Gan rai sy' heb ddeall etto,'n ol d'od o'u rhwymau'n rhydd.
19 Trwy'r oesoedd fe ofalodd yn rhyw fodd am eu rhoi,
Rhai sydd yn dyfod beunydd, ac eraill ffwrdd yn ffoi;
Pan gaffom ninnau'n gosod mewn beddrod 'nawr sy'n bod,
Bydd eraill gan yr Arglwydd, da dedwydd, wedi d'od.
20 Wel ymgysura Sion, a chymmer galon gwr,
Can's Arglwydd mawr y lluoedd a saif o'th blaid yn siwr;
Ti ferch pendefig hawddgar, a gwiw-gar iawn ei gwedd,
O'r llwch ar frys ymysgwyd, arlwywyd i ti'r wledd.
21 Ei gorph a'i enaid yma fu'n ddiwyd yn ei ddydd,
Ei gorph a'i enaid yna'n ddi-wân gânt rodio'n rhydd.

Heb fyth ymadael wedi'n, na gelyn yno i'w gwrdd,
Byth wedi gwisgo trallod a phechod hefyd ffwrdd.

22 Efe sydd wedi myned trwy angeu loes yn lân,
Fe brofodd ef o'r diwedd y blinder hwn o'm bla'n;
Mae'i DDUW e'n fyw i finneu, nac ammeu f' enaid gwan,
Fe'th gymmer i ogoniant a mwyniant yn y man.

23 Mae gobaith am ogoniant a llwyddiant uwch y llawr,
Yn rhoi llawenydd beunydd, o newydd yma'n awr,
Wrth ddiodde' gorthrymderau, myn gorfoleddu le,
Gan hynny pwy all draethu, pa beth i ni fydd ne'?

24 DUW'n bob peth i ni wedi'n, heb 'mofyn un peth mwy,
A phawb yn iach ei fywyd, heb glefyd ac heb glwy;
Pryd hyn cyrhaeddir digon, heb ofon yn y byd,
Fyth fyth fel y pregethir, na feddir hwn o hyd.

25 Dihangfa lân ar bechod, a phob rhyw sorod sydd,
Ni a ganwn 'nawr mewn rhyfel, yn dawel am y dydd;
Nos angeu sydd yn dywyll, y ganwyll sydd i'w gael,
I ddangos bryniau gwynfyd, a bywyd hyfryd hael.

26 Mae IESU'n briod ffyddlon, i'r afon fe ddaw'n rhwydd,
Daw i ni gysur hynod o'i ganfod yn ein gwydd;
Na wangalonwch, frodyr, mae'n gywir i ni gyd,
Fe'n dwg i wlad gorfoledd, i feddu hedd o hyd.

27 A DAVIES hardd o Hwlffordd, y pêr ladmerydd mwyn,
Mae yntef wedi'n gadael, y gân a drodd yn gwyn;
A'i gwyno ef yn ganu, a gorfoleddu'n lân,
Lle'r oedd ei serch a'i drysor, mae'n wir ddible o'r bla'n.

28 Daw im' newyddion trymion, a blinion yn y bla'n,
Tra fyddwyf ar y ddaear, y galar faedda gân;
Mae'r cwyno'n fwy nâ'r canu, mae felly arnaf fi,
Clywch, frodyr gwych hyfrydwedd, ai iach o wedd y'ch chwi?

29 Pan gaffom fry gyfarfod, o hynod fydd yr hwyl,
Cyd-foli a chyd wledda, byth mwy gyd-gadw gwyl;
Ffarwel i bob rhyw benyd, y gofid a phob gwae,
Pan gaffom weled IESU'n ddymunol fel y mae.

30 O Dduw byddfhoedd Israel, yn rhodd bydd di o'm rhan,
Tra fyddwyf yn yr anial, o cynnal f' enaid gwan;
A gwna fi'n addfed ryw bryd, i'r byd tu draw i'r bedd,
Gael etifeddu bywyd, a gwynfyd, hyfryd hedd.

**DIWEDD.**